

**ARDAL GENHADAETH
PENEDEYRN
MISSION AREA**



**BOREOL WEDDI
MORNING PRAYER**

Brawddeg agoriadol:

Y Garawys: Ceisiwch yr Arglwydd tra gellir ei gael, galwch arno tra bydd yn agos. Gadawed y drygionus ei ffordd, a'r un ofer ei fwriadau, a dychwelyd at yr Arglwydd, iddo drugarhau wrtho, ac at ein Duw ni, oherwydd fe faddau'n helaeth. *Eseia 55:6-7*

Y Dioddefaint: O'i gael ar ddull dyn, darostyngodd Crist ei hun, gan fod yn ufudd hyd angau, ie, angau ar groes. Am hynny tra-dyrchafodd Duw ef, a rhoi iddo'r enw sydd goruwch pob enw. *Philippiaid 2:8-9*

Y Pasg: Y mae'r Arglwydd yn wir wedi ei gyfodi. Halelwia! *Luc 24:34*

Y Dyrchafael: Dywedodd yr angel: "Wŷr Galilea, pam yr ydych yn sefyll yn edrych tua'r nef? Bydd yr Iesu hwn, sydd wedi ei gymryd i fyny oddi wrthyh i'r nef, yn dod yn yr un modd ag y gwelsoch ef yn mynd i'r nef." *Actau 1:11*

Pentecost: Dywedodd Iesu: "Os ydych yn fy ngharu i, fe gadwch fy ngorchmynion i. Ac fe ofynnaf finnau i'm Tad, ac fe rydd ef i chwi Eiriolwr arall i fod gyda chwi am byth, Ysbryd y Gwirionedd." *Ioan 14:15-17a*

Sul y Drindod: Sanct, Sanct, Sanct yw Arglwydd y Lluoedd; y mae'r holl ddaear yn llawn o'i ogoniant *Eseia 6:3*

Bendith Agoriadol

Y Garawys:

Hollalluog Dduw, porthaist dy bobl yn yr anialwch, a'u tywys â chwmwl a thân, a rhoi gorchmynion i osod trefn ar eu bywydau. Dyro inni lygaid i ganfod dy fwriad, dyfalbarhad i ddilyn lle yr arweini di, a dewrder i adnabod y gwirionedd sy'n ein rhyddhau; fel y bendithir ein bywydau ac y gwneledy dy ewyllys. Bendigedig fyddo Duw am byth.

Y Dioddefaint:

Dduw sanctaidd, sanctaidd a chryf, sanctaidd ac anfarwol! Trwy ei Groes a'i Ddioddefaint cyhoeddodd ein Gwardwr Crist dy gariad, maddeuodd i'w lofruddion, ac addo i'r lleidr edifeiriol le y dydd hwnnw gydag ef ym Mharadwys. I'th ddwylo di y cyflwynwn ein hysbryd. Cyflawna dy ewyllys yn ein byd, lle y mae llawer yn sychedu, llawer yn teimlo'n wrthodedig; a dwg i'n plith y cymod a'r gofal brawdol a ddangoswyd ac a gynigiwyd inni gan dy Fab, ein Gwardwr Iesu Grist. Bendigedig fyddo Duw am byth.

Opening sentences:

Lent: Seek the Lord while he may be found, call upon him while he is near. Let the wicked forsake their way and the unrighteous their thoughts: let them return to the Lord, that he may have mercy on them, and to our God, for he will abundantly pardon. *Isaiah 55:6–7*

Passiontide: Christ became obedient to the point of death, even death on the Cross; therefore God also highly exalted him and gave him the name that is above every name. *Philippians 2:8–9*

Easter: The Lord has risen indeed. Alleluia! *Luke 24:34*

Ascensiontide: The angel said: ‘Men of Galilee, why do you stand looking up towards heaven? This Jesus, who has been taken up from you into heaven, will come in the same way as you saw him go into heaven.’ *Acts 1:11*

Pentecost: Jesus said: ‘If you love me you will keep my commandments; and I will ask the Father, and he will give you another Advocate, to be with you for ever – the Spirit of truth.’
John 14:15–17a

Trinity Sunday: Holy, holy, holy is the Lord of hosts; the whole earth is full of his glory. *Isaiah 6:3*

Opening Prayer of Blessing

Lent:

Almighty God, you fed your people in the wilderness, and guided them by cloud and fire, giving commandments to order their lives. Give us eyes to see your purpose, perseverance to follow where you lead, and courage to know the truth that sets us free; that our lives may be blessed and your will may be done. Blessed be God for ever.

Passiontide:

Holy God, holy and strong, holy and immortal! By his Cross and Passion, our Saviour Christ declared your love, forgave his killers, and promised to the penitent thief a place that day with him in Paradise. Into your hands we commit our spirit. Accomplish your will in our world, where many thirst, many feel forsaken; and bring reconciliation and the brotherly care shown and offered to us by your Son, our Saviour Jesus Christ. Blessed be God for ever.

Bendith Agoriadol

Y Pasg:

Ardderchocaf Arglwydd bywyd, y gorchfygodd dy Fab Iesu Grist angau a chyfodi'n fuddugoliaethus o'r bedd: bydded inni rodio yn ei gwmni, clywed dirgelwch yr Ysgrythur yn cael ei ddehongli inni, ac, â'n calonau'n llosgi o'n mewn, adnabod ei bresenoldeb ef ar doriad y bara, oherwydd ein Gwardwr a gyfododd yn wir – Halelwia! Bendigedig fyddo Duw am byth.

Y Dyrchafael:

Frenin brenhinoedd ac Arglwydd arglwyddi, a gyfododd ac a esgynnodd ac a ogoneddwyd: gadewaist inni orchymyn parhaus i fynd allan, gwneud disgyblion o bob cenedl, bedyddio, dysgu a byw i'th ogoniant. Bydded inni ganfod dy bresenoldeb gyda ni bob amser, hyd ddiwedd amser. Halelwia! Bendigedig fyddo Duw am byth.

Pentecost:

Dduw pob ysbrydoliaeth, yn y dechreuad yr oedd dy Lân Ysbryd yn ymsymud ar wyneb y dyfroedd a daeth yr holl greadigaeth yn fyw. Anfon arnom dy anadl fywiol, fel, wrth ein hail-greu ni, y bydd iti adnewyddu wyneb y ddaear mewn cariad a llawenydd a thangnefedd. Halelwia! Bendigedig fyddo Duw am byth.

Sul y Drindod:

Dduw hollalluog, sy'n byw ac yn teyrnasu yn undod cariad perffaith: dwg ni felly i'th adnabod, i'th garu ac i'th ddilyn, fel y caffom ynot ti y cyflawnder bywyd hwnnw na wŷyr na dechrau na diwedd yn y Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glân. Bendigedig fyddo Duw am byth.

Rhagarweiniad Syml i'r Foreol Weddi

Arglwydd, agor ein gwefusau,
A'n genau a fynega dy foliant.

Gogoniant i'r Tad, ac i'r Mab, ac i'r Ysbryd Glân;
fel yr oedd yn y dechrau y mae yn awr,
ac y bydd yn wastad, yn oes oesoedd. Amen.

Gweddi ddistaw / myfyrdod ar y dydd sydd i ddod.

Yn gynnar yn y bore daw fy ngweddi atat.
Arglwydd, trugarha. Arglwydd, trugarha.

Opening Prayer of Blessing

Easter:

Most glorious Lord of life, whose Son Jesus Christ conquered death and rose victorious from the grave: may we walk in his company, hear the mystery of the Scriptures unfold to us, and, with burning hearts, know his presence in the breaking of the bread, for our Saviour is risen indeed – Alleluia! Blessed be God for ever.

Ascensiontide:

King of kings and Lord of lords, risen, ascended, glorified: you have left us a lasting command to go out, make disciples of all nations, baptise, teach and live to your glory. May we perceive your presence with us always, even to the end of time. Alleluia! Blessed be God for ever.

Pentecost:

Inspiring God, in the beginning your Holy Spirit hovered over the surface of the waters and all creation came alive. Send on us your life-giving breath, that, as we are recreated, you may renew the face of the earth in love, in joy and in peace. Alleluia! Blessed be God for ever.

Trinity Sunday:

Holy, holy, holy, Lord God almighty, living and reigning in the unity of perfect love: draw us so to know you, to love and follow you, that in you we may find the fullness of life which knows no beginning nor end in Father, Son and Holy Spirit. Blessed be God for ever.

A Simple Introduction to Morning Prayer

O Lord, open our lips,
and our mouth shall proclaim your praise.

Glory to the Father, and to the Son, and to the Holy Spirit;
as it was in the beginning, is now,
and shall be for ever. Amen.

Silent prayer / reflection on the coming day.

Early in the morning my prayer comes before you.
Lord, have mercy. Lord, have mercy.

Yr wyt yn llefaru yn fy nghalon ac yn dweud “Ceisia fy wyneb”;
am hynny ceisiaf dy wyneb, O Arglwydd.
Crist, trugarha. Crist, trugarha.

Bydded geiriau fy ngenau'n dderbyniol gennyf, a myfyrdod fy nghalon
yn gymeradwy i ti, O Arglwydd, fy nghraig a'm prynwr.
Arglwydd, trugarha. Arglwydd, trugarha.

Gweinidogaeth y Gair

Salm(au)

Bydd pob salm yn diweddu gyda

Gogoniant i'r Tad ac i'r Mab ac i'r Ysbryd Glân;
fel yr oedd yn y dechrau, y mae yn awr,
ac y bydd yn wastad yn oes oesoedd. Amen.

Y darlleniad o'r Hen Destament

Y darlleniad o'r Testament Newydd

Cantigl:

Y Garawys: Cân am Air yr Arglwydd (Eseia 55:6–11)

- 1 Ceisiwch yr Arglwydd tra gellir ei gael :
galwch arno tra bydd yn agos.
- 2 Gadawed y drygionus ei ffordd : a'r un ofer ei fwriadau,
- 3 A dychwelyd at yr Arglwydd : iddo drugarhau wrtho,
- 4 Ac at ein Duw ni : oherwydd fe faddau'n helaeth.
- 5 “Oherwydd nid fy meddyliau i yw eich meddyliau chwi :
ac nid eich ffyrdd chwi yw fy ffyrdd i,” medd yr Arglwydd.
- 6 Fel y mae'r nefoedd yn uwch na'r ddaear y mae fy ffyrdd i yn
uwch na'ch ffyrdd chwi : a'm meddyliau i na'ch meddyliau chwi.
- 7 Fel y mae'r glaw a'r eira yn disgyn o'r nefoedd :
a heb ddychwelyd yno nes dyfrhau'r ddaear,
- 8 A gwneud iddi darddu a ffrwythloni :
a rhoi had i'w hau a bara i'w fwyta,
- 9 Felly y mae fy ngair sy'n dod o'm genau ni ddychwel ataf yn ofer:
ond fe wna'r hyn a ddymunaf, a llwyddo â'm neges.”

You speak in my heart and say 'Seek my face';
your face, Lord, will I seek. Christ, have mercy. Christ, have mercy.
Let the words of my mouth and the meditation of my heart
be acceptable in your sight, O Lord, my strength and my redeemer.
Lord, have mercy. Lord, have mercy.

The Ministry of the Word

Psalmody

Each of the psalms appointed for the day ends with

Glory to the Father, and to the Son, and to the Holy Spirit;
as it was in the beginning, is now, and shall be for ever. Amen.

The Old Testament reading

The New Testament reading

The Canticle:

Lent:

A Song of the Word of the Lord (Isaiah 55:6–11)

- 1 Seek the Lord while he may be found :
call upon him while he is near.
- 2 Let the wicked abandon their ways :
and the unrighteous their thoughts;
- 3 Return to the Lord, who will have mercy :
to our God who will richly pardon.
- 4 'For my thoughts are not your thoughts :
neither are your ways my ways,' says the Lord.
- 5 For as the heavens are higher than the earth : so are my ways
higher than your ways and my thoughts than your thoughts.
- 6 As the rain and the snow come down from above :
and return not again but water the earth,
- 7 Bringing forth life and giving growth :
seed for sowing and bread to eat,
- 8 So is my word that goes forth from my mouth :
it will not return to me fruitless,
- 9 But it will accomplish that which I purpose :
and succeed in the task I gave it.'

Gogoniant i'r Tad ac i'r Mab ac i'r Ysbryd Glân;
fel yr oedd yn y dechrau, y mae yn awr,
ac y bydd yn wastad yn oes oesoedd. Amen.

Y Dioddefaint: Duw'r Gwaredwr
(Llyfr Du Caerfyrddin, y drydedd ganrif ar ddeg, addasiad)

Yn enw ein Duw ni, Fy rhan yw ei foli,
Mawr ei foliant:

Molaf fi Dduw, a'i drugaredd ar gynnydd.
Bugail cadarn yw Crist, ei anrhydedd ni dderfydd.

Duw a'n creodd,
Duw a'n hamddiffynnodd,
Duw a'n gwaredodd:

Molaf fi Dduw, a'i drugaredd ar gynnydd.
Bugail cadarn yw Crist, ei anrhydedd ni dderfydd.

Duw yw ein gobaith;
Mae'n deilwng a pherffaith,
A theg ei fendith:

Molaf fi Dduw, a'i drugaredd ar gynnydd.
Bugail cadarn yw Crist, ei anrhydedd ni dderfydd.

Duw sydd uchod, Brenin y Drindod.
Daeth inni'n ymborth yn ein trallod,
Daeth i'w garcharu'i hun mewn dibristod :

Molaf fi Dduw, a'i drugaredd ar gynnydd.
Bugail cadarn yw Crist, ei anrhydedd ni dderfydd.

Fendigaid Arglwydd, gwna ni'n rhydd cyn Dydd y Farn,
A'n croesawu, er mwyn dy allu, i gydrannu
Gwledd Paradwys, lle cawn orffwys heb bwys pechod :

Molaf fi Dduw, a'i drugaredd ar gynnydd.
Bugail cadarn yw Crist, ei anrhydedd ni dderfydd.

Trwy ei ddirfawr friw fe'n hachubodd Duw pan gymerth gnawd.
Pe bai Crist heb ein prynu, byddem wedi'n collfarnu.
O'r grog waedlyd y gwaredwyd y bydysawd :

Molaf fi Dduw, a'i drugaredd ar gynnydd.
Bugail cadarn yw Crist, ei anrhydedd ni dderfydd.

Glory to the Father, and to the Son, and to the Holy Spirit;
as it was in the beginning, is now, and shall be for ever. Amen.

Passiontide:

God the Saviour (*Black Book of Carmarthen, thirteenth century*)

In the name of God, who should be praised,
Whose praise is great :

*We praise God's ever-increasing mercy –
Christ is a strong shepherd, honoured for ever.*

God created us,
God defended us,
God has rescued us :

*We praise God's ever-increasing mercy –
Christ is a strong shepherd, honoured for ever.*

God is our hope,
Worthy and perfect,
His blessing beautiful :

*We praise God's ever-increasing mercy –
Christ is a strong shepherd, honoured for ever.*

We owe our king, the Trinity, everything.
In our suffering God was our help;
Enslaving himself for us in humility :

*We praise God's ever-increasing mercy –
Christ is a strong shepherd, honoured for ever.*

May the blessed Lord free us by Judgement Day,
Through his gentle purity bring us to feast
In Paradise, welcome and free of sin's burden :

*We praise God's ever-increasing mercy –
Christ is a strong shepherd, honoured for ever.*

When God became man he was tortured for us.
Christ's flawless deed was our redemption;
The universe was saved by a bloodstained cross :

*We praise God's ever-increasing mercy –
Christ is a strong shepherd, honoured for ever.*

Y Pasg: Anthemau'r Pasg

- 1 Y mae Crist, ein Pasg ni, wedi ei aberthu drosom ni :
am hynny cadwn wyl,
- 2 Nid â hen lefain malais a drygioni :
ond â bara croyw purdeb a gwirionedd.
- 3 Nid yw Crist a gyfodwyd oddi wrth y meirw yn marw mwyach :
nid yw marwolaeth yn arglwyddiaethu arno mwyach.
- 4 Wrth farw, bu farw unwaith i bechod :
wrth fyw, y mae'n byw i Dduw.
- 5 Cyfrifwch chwithau eich hunain, felly, yn feirw i bechod :
ac yn fyw i Dduw yng Nghrist Iesu ein Harglwydd.
- 6 Cyfodwyd Crist oddi wrth y meirw :
yn flaenffrwyth y rhai sy'n huno.
- 7 Oherwydd gan i farwolaeth ddod trwy ddyn :
trwy ddyn hefyd y daeth atgyfodiad y meirw.
- 8 Oherwydd fel y mae pawb yn marw yn Adda :
felly hefyd y gwneir pawb yn fyw yng Nghrist.

Gogoniant i'r Tad ac i'r Mab ac i'r Ysbryd Glân;
fel yr oedd yn y dechrau, y mae yn awr,
ac y bydd yn wastad yn oes oesoedd. Amen.

Y Dyrchafael: *Cân am Ogoniant Crist (Philipiaid 2:6–11)*

- 1 Er bod Crist Iesu ar ffurf Duw :
ni chyfrifodd fod cydraddoldeb â Duw yn beth i'w gipio,
- 2 Ond fe'i gwacaodd ei hun gan gymryd ffurf caethwas :
a dyfod ar wedd ddynol.
- 3 O'i gael ar ddull dyn fe'i darostyngodd ei hun :
gan fod yn ufudd hyd angau ie angau ar groes.
- 4 Am hynny tra-dyrchafodd Duw ef :
a rhoi iddo'r enw sydd goruwch pob enw,
- 5 Fel wrth enw Iesu y plygai pob glin :
yn y nef ac ar y ddaear a than y ddaear,
- 6 Ac y cyffesai pob tafod fod Iesu Grist yn Arglwydd :
er gogoniant Duw Dad.

Easter: *The Easter Anthems*

- 1 Christ our Passover has been sacrificed for us :
so let us celebrate the feast,
- 2 Not with the old leaven of corruption and wickedness :
but with the unleavened bread of sincerity and truth.
- 3 Christ once raised from the dead dies no more :
death has no more dominion over him.
- 4 In dying he died to sin once for all :
in living he lives to God.
- 5 See yourselves therefore as dead to sin :
and alive to God in Jesus Christ our Lord.
- 6 Christ has been raised from the dead :
the first fruits of those who sleep.
- 7 For as by man came death :
by man has come also the resurrection of the dead.
- 8 For as in Adam all die :
even so in Christ shall all be made alive.

Glory to the Father, and to the Son, and to the Holy Spirit;
as it was in the beginning, is now,
and shall be for ever. Amen.

Ascensiontide: *The Song of Christ's Glory (Philippians 2:5b–11)*

- 1 Christ Jesus was in the form of God :
yet he did not cling to equality with God.
- 2 He emptied himself, taking the form of a slave :
and was born in our human likeness.
- 3 Being found in human form, he humbled himself :
and became obedient unto death even death on a cross.
- 4 Therefore God highly exalted him :
and bestowed on him the name above all names,
- 5 That at the name of Jesus every knee should bow :
in heaven, on earth, and in the depths;
- 6 And every tongue confess, 'Jesus Christ is Lord' :
to the glory of God the Father.

Gogoniant i'r Tad ac i'r Mab ac i'r Ysbryd Glân;
fel yr oedd yn y dechrau, y mae yn awr,
ac y bydd yn wastad yn oes oesoedd. Amen.

Pentecost: Cân am yr Ysbryd (Datguddiad 22:12–14, 16–17, 20)

- 1 “Wele, yr wyf yn dod yn fuan,” medd yr Arglwydd “a'm gwobr gyda mi : i'w rhoi i bob un yn ôl ei weithredoedd.
- 2 Myfi yw Alfa ac Omega, y cyntaf a'r olaf : y dechrau a'r diwedd.”
- 3 Gwyn eu byd y rhai sy'n golchi eu mentyll : er mwyn iddynt gael hawl ar bren y bywyd a mynediad trwy'r pyrth i'r ddinas.
- 4 “Yr wyf fi, Iesu, wedi anfon fy angel :
i dystiolaethu am y pethau hyn i chwi ar gyfer yr eglwysi.
- 5 Myfi yw Gwreiddyn a Hiliogaeth Dafydd : seren ddisglair y bore.”
- 6 Y mae'r Ysbryd a'r briodferch yn dweud “Tyrd” :
a'r sawl sy'n clywed dywedded yntau “Tyrd.”
- 7 A'r sawl sy'n sychedig deued ymlaen :
a'r sawl sydd yn ei ddymuno derbynied ddŵr y bywyd yn rhodd.
- 8 “Yn wir, yr wyf yn dod yn fuan” : Amen. Tyrd Arglwydd Iesu!

Gogoniant i'r Tad ac i'r Mab ac i'r Ysbryd Glân;
fel yr oedd yn y dechrau, y mae yn awr,
ac y bydd yn wastad yn oes oesoedd. Amen.

Sul y Drindod: Cân am Ras Duw (Effesiaid 1:3–10)

- 1 Bendigedig fyddo Duw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist :
y mae wedi'n bendithio ni yng Nghrist â phob bendith ysbrydol
yn y nefolion leoedd.
- 2 Cyn seilio'r byd, fe'n dewisodd yng Nghrist :
i fod yn sanctaidd ac yn ddi-fai ger ei fron mewn cariad.
- 3 O wirfodd ei ewyllys fe'n rhagordeiniodd i gael ein mabwysiadu
yn blant iddo'i hun trwy Iesu Grist :
er clod i'w ras gogoneddus ei rad rodd i ni yn yr Anwylyd.
- 4 Ynddo ef y mae i ni brynedigaeth trwy ei waed :
sef maddeuant ein camweddau;
- 5 Dyma fesur cyfoeth y gras a roddodd mor hael i ni :
ynghyd â phob doethineb a dirnadaeth.

Glory to the Father, and to the Son, and to the Holy Spirit;
as it was in the beginning, is now, and shall be for ever. Amen.

Pentecost: A Song of the Spirit (Revelation 22:12–14, 17, 20)

- 1 'Behold I am coming soon' says the Lord :
'and bringing my reward with me
to give to everyone according to their deeds.
- 2 I am the Alpha and the Omega, the first and the last :
the beginning and the end.'
- 3 Blessed are those who do God's commandments
that they may have the right to the tree of life :
and may enter into the city through the gates.
- 4 'I, Jesus, have sent my angel to you :
with this testimony for all the churches.
- 5 I am the root and the offspring of David :
I am the bright morning star.'
- 6 'Come!' say the Spirit and the bride :
'Come!' let each hearer reply.
- 7 Come forward, you who are thirsty :
let those who desire take the water of life as a gift.
- 8 'Surely I am coming soon' : Amen. Come Lord Jesus!

Trinity Sunday: A Song of God's Grace (Ephesians 1:3–10)

- 1 Blessed be the God and Father of our Lord Jesus Christ :
who has conferred on us in Christ every spiritual blessing
in the heavenly realms.
- 2 Before the foundation of the world : he chose us in Christ to be
his people to be without blemish in his sight to be full of love;
- 3 He predestined us to be adopted as his children
through Jesus Christ : this was his will and pleasure;
- 4 In order that the glory of his gracious gift
so graciously conferred on us in his Beloved :
might redound to his praise.
- 5 In Christ our release is secured and our sins forgiven :
through the shedding of his blood.
- 6 In the richness of his grace :
God has lavished on us all wisdom and insight.

- 6 Hysbysodd i ni ddirgelwch ei ewyllys :
yn unol â'r bwriad a arfaethodd yng Nghrist yng nghynllun
cyflawniad yr amseroedd,
- 7 Sef dwyn yr holl greadigaeth i undod yng Nghrist :
gan gynnwys pob peth yn y nefoedd ac ar y ddaear.

Gogoniant i'r Tad ac i'r Mab ac i'r Ysbryd Glân;
fel yr oedd yn y dechrau, y mae yn awr,
ac y bydd yn wastad yn oes oesoedd. Amen.

Y darlleniad o'r Efengyl

Credo'r Bedydd

Yr wyf yn credu ac yn ymddiried yn Nuw Dad,
ffynhonnell pob bod a bywyd, yr un yr ydym yn bod er ei fwyn.

Yr wyf yn credu ac yn ymddiried yn Nuw Fab,
a gymerodd ein natur ddynol ni, a fu farw drosom ac a atgyfododd.

Yr wyf yn credu ac yn ymddiried yn Nuw Ysbryd Glân,
sy'n rhoi bywyd i bobl Dduw ac yn amlygu Crist yn y byd.

Dyma ffydd yr Eglwys. Dyma ein ffydd ni.
Yr ydym yn credu ac yn ymddiried yn un Duw,
Tad, Mab ac Ysbryd Glân. Amen.

Y Gweddïau (neu ymbiliau eraill)

Ar i'r Eglwys fod yn un wrth dystio i'r Efengyl a'i chyhoeddi ...
Clyw ni, O Arglwydd, oherwydd mawr yw dy drugaredd.

Am heddwch a sefydlogrwydd i'r holl bobloedd, a thros arweinwyr y
cenhedloedd ...

Clyw ni, O Arglwydd, oherwydd mawr yw dy drugaredd.

Dros leoedd gwaith, lleoedd addysgu a lleoedd hamdden ...
Clyw ni, O Arglwydd, oherwydd mawr yw dy drugaredd.

Am fendith ar ein cartrefi; dros ein perthnasau a'n cyfeillion a phawb
a garwn ...

Clyw ni, O Arglwydd, oherwydd mawr yw dy drugaredd.

Dros y claf a'r sawl sy'n dioddef, a phawb sy'n gweini ar eu
hanghenion ...

Clyw ni, O Arglwydd, oherwydd mawr yw dy drugaredd.

- 7 He has made known to us his secret purpose :
in accordance with the plan which he determined beforehand
in Christ to be put into effect when the time was ripe :
- 8 That the universe, everything in heaven and on earth :
might be brought into a unity in Christ.

Glory to the Father, and to the Son, and to the Holy Spirit;
as it was in the beginning, is now, and shall be for ever. Amen.

The Gospel reading

A Baptismal Creed

I believe and trust in God the Father,
source of all being and life, the one for whom we exist.

I believe and trust in God the Son,
who took our human nature, died for us and rose again.

I believe and trust in God the Holy Spirit,
who gives life to the people of God
and makes Christ known in the world.

This is the faith of the Church. This is our faith.
We believe and trust in one God,
Father, Son and Holy Spirit. Amen.

The Prayers (or other intercessions)

For the unity of the Church in witness and proclamation of the
Gospel ...

Hear us, O Lord, for your mercy is great.

For the peace and stability of all peoples, and for the leaders of
the nations ...

Hear us, O Lord, for your mercy is great.

For places of work, education and leisure ...

Hear us, O Lord, for your mercy is great.

For a blessing on our homes; for our relations and friends and all
whom we love ...

Hear us, O Lord, for your mercy is great.

For the sick and suffering, and all who minister to their needs...

Hear us, O Lord, for your mercy is great.

Cyflwynwn ein hunain, a phawb y gweddiwn drostynt,
i drugaredd a nodded Duw. **Amen.**

Gweddi'r Arglwydd

Ein Tad, yr hwn wyt yn y nefoedd,
sancteiddier dy enw,
deled dy deyrnas, gwneler dy ewyllys;
megis yn y nef, felly ar y ddaear hefyd.
Dyro i ni heddiw ein bara beunyddiol
a maddau i ni ein dyledion,
fel y maddeuwn ninnau i'n dyledwyr.
Ac nac arwain ni i brofedigaeth;
eithr gwared ni rhag drwg.
Canys eiddot ti yw'r deyrnas,
a'r gallu, a'r gogoniant,
yn oes oesoedd. Amen.

Colect y Dydd. (Gweler taflen colectau)

Yr ail golect, am dangnefedd.

O Dduw, awdur tangnefedd a charwr cytundeb,
y mae dy adnabod di yn fywyd tragwyddol,
a'th wasanaethu yn rhyddid perffaith:
amddiffyn ni rhag holl ymosodiadau ein gelynion,
fel, a ninnau'n llwyr ymddiried yn dy nodded,
nad ofnwn allu neb o'n gwrthwynebwyr;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd. Amen.

Y trydydd colect, am ras.

Dragwyddol Dduw a Thad,
y crewyd ni trwy dy allu
a'n prynu trwy dy gariad,
tywys a nertha ni â'th Ysbryd,
fel y gallwn ein rhoi ein hunain i ti
trwy garu a gwasanaethu'n gilydd;
yn Iesu Grist ein Harglwydd. Amen.

Let us commend ourselves, and all for whom we pray, to the mercy and protection of God. **Amen.**

The Lord's Prayer

Our Father who art in heaven,
hallowed be thy name,
thy kingdom come, thy will be done,
on earth as it is in heaven.
Give us this day our daily bread.
And forgive us our trespasses
as we forgive those who trespass against us.
And lead us not into temptation,
but deliver us from evil.
For thine is the kingdom,
the power and the glory,
for ever and ever. Amen.

The Collect of the Day (see separate Collect sheet)

The second collect, for peace

O God, the author of peace and lover of concord,
to know you is eternal life,
to serve you is perfect freedom:
defend us in all assaults of our enemies,
that we, surely trusting in your protection,
may not fear the power of any adversaries;
through Jesus Christ our Lord. **Amen.**

The third collect, for grace.

Eternal God and Father,
by your power we are created
and by your love we are redeemed:
guide and strengthen us by your Spirit,
that we may give ourselves to you
in love and service of one another;
through Jesus Christ our Lord. **Amen.**

Y Diweddglo



Gweddi oddi wrth Esgob Gregory

Annwyl Dad, â'n creodd ni ac â'n gwardodd ni,
ac sydd wedi addo i ni dy gariad,
bydd gyda ni ar adeg o berygl ac o bryder.
Bydded i'r rhai sy'n dioddef, neu sy'n wael,
wybod am fendith dy ras,
a bydded i ni sy'n iach gael ein hysbrydoli gan dy Ysbryd
i fod yn ddoeth ac i fod yn weision a morynion, yn
gweithio i wella ac er cyfanrwydd pawb, pob un yn ei
ffordd ei hun.
Cadwa ni'n dawel ac yn ofalus, yn gryf ac yn barod i
wasanaethu,
Fel y gallwn ni ofalu am y rhai o'n hamgylch ac hefyd
amdanom ni ein hunain.
Gofynnwn hyn yn enw Iesu. Amen.

Bendithiwn yr Arglwydd. I Dduw y bo'r diolch.

The Conclusion.



A Prayer from Bishop Gregory

Dear Father, who created us, and redeemed us,
and who has promised us your love,
be with us in a time of danger and of worry.
May those who suffer, or who are ill,
know the blessing of your grace,
while we who are well be inspired by your Spirit
To be wise and to be servants, working for the healing
and wholeness of all, each in our own way.
Keep us calm and cautious, strong and open to service,
So that we take care of those around us,
and also ourselves.
We ask this in the name of Jesus.
Amen.

Let us bless the Lord. Thanks be to God.

Hawlfraint © Gwasg yr Eglwys yng Nghymru yw *Gweddi Ddyddiol 2009* (yn cynnwys trefn Gwasanaethau Ychwanegol y rhoddwyd iddynt y teitl Boreol a Hwyrol Weddi 2009) y cynhwyswyd deunydd ohono yn y gwasanaeth hwn.

Daily Prayer 2009 (comprising additional orders of service entitled Morning and Evening Prayer 2009), material from which is included in this service, is copyright © Church in Wales Publications 2009.